Arolygiaeth Gofal **Cymru**
Care Inspectorate **Wales**

# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Gwasanaeth Gofal Môn**

**Cyngor Sir Ynys Môn**
**Swyddfeydd y Cyngor**
**Llangefni**
**LL77 7TW**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

13/02/2023

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Gwasanaeth Gofal Môn

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cymorth Cartref |
| Darparwr Cofrestredig | Gwasanaethau Oedolion a Phlant Cyngor Sir Ynys Môn |
| Lleoedd cofrestredig | 0 |
| Iaith y gwasanaeth | Cymraeg a Saesneg |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 18 Mehefin 2019 |
| A yw’r gwasanaeth hwn yn darparu’r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg? | Mae'r gwasanaeth yn darparu ‘Cynnig Rhagweithiol’ ar gyfer y Gymraeg. Mae'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg ac anghenion diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

## Crynodeb

Mae Gwasanaeth Gofal Môn yn darparu cymorth hirdymor i bobl sy'n byw yn eu cartrefi eu hunain, byw â chymorth, gwasanaethau ail-alluogi i bobl sy'n trosglwyddo o ysbyty a gwasanaeth ymateb gyda'r nos (Tylluanod y Nos)

Mae staff ymroddedig a phrofiadol yn cyflwyno gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ym mhob darpariaeth gwasanaeth ac yn diwallu gofynion y Gymraeg heb i bobl orfod gofyn am hyn. Mae staff gofal yn rhoi cymorth i bobl gyda'u nodau personol i gadw'n annibynnol, ailadeiladu sgiliau a byw eu bywydau fel y dymunant.

Mae prosesau sicrhau ansawdd ar waith ac yn parhau i gael eu datblygu, sy'n golygu bod y darparwr yn nodi meysydd i'w gwella ac yn rhoi prosesau ar waith sydd er budd y sefydliad, y staff a'r bobl sy'n manteisio ar y gwasanaethau.

Bydd datblygiad pellach o asesiadau risg codi a chario yn sicrhau bod staff a phobl sy'n cael eu cefnogi yn cael eu cadw'n ddiogel. Mae'r darparwr yn gweithio i sicrhau bod hyfforddiant staff yn parhau'n gyfredol yn dilyn anawsterau a brofwyd yn ystod y pandemig.

## Llesiant

Mae'r bobl yn fodlon ar y gofal a'r cymorth y maent yn eu cael ac mae ganddynt gydberthnasau cadarnhaol â'r staff sy'n eu cefnogi. Ymhlith sylwadau'r bobl sy'n cael cymorth mae *“brilliant, I was quite surprised that there was so much they could support with”* ac *“I am very happy with the care staff, they are so helpful.”* Mae'r bobl yn hapus ar amseroedd y galwadau maent yn eu cael a gwnaethant ddweud wrthym fod y staff gofal yn brydlon ac nad ydynt yn rhuthro. Mae rhai pobl yn hoffi cael rota galwadau, er mwyn iddynt wybod pwy fydd yn rhoi cymorth iddynt a chaiff y cais hwn ei ddiwallu. Dywedodd un aelod o'r teulu wrthym *“Everything has been fantastic, no problems, the call time suits, they are always on time and communication is good.”*

Mae'r staff gofal yn cynnig cymorth gydag urddas a pharch, gan sicrhau y caiff tasgau gofal eu cwblhau yn unol â'r cynllun cymorth. Caiff pobl gymorth â gofal personol, tasgau domestig, coginio a chymorth iechyd fel ymarferion ffisiotherapi. Mae pobl hefyd yn manteisio ar agwedd gymdeithasol gofal a chymorth gydag un unigolyn yn dweud wrthym *“They are always here on time and always have a few words for you, I never feel rushed.”* Mae'r staff yn mwynhau'r gwaith maen nhw'n ei wneud ac yn ymfalchïo wrth weld y bobl maent yn rhoi cymorth iddynt yn cyrraedd eu nodau gan ddweud wrthym, *“It is so rewarding when you see peoples progress, it's about promoting independence.”*

Mae'r bobl yn profi canlyniadau iechyd cadarnhaol oherwydd bod y staff gofal yn cydweithio â gweithwyr proffesiynol eraill fel therapyddion galwedigaethol, ffisiotherapyddion a nyrsys ardal i ddarparu gofal cyson. Dywedodd un unigolyn wrthym *“Care staff help you and are patient, they don’t push too hard but give you confidence.”* Mae'r cofnodion a welwyd yn dangos cofnodlyfr da o gyfathrebu rhwng pobl, teuluoedd a gweithwyr proffesiynol eraill. Mae'r nodiadau dyddiol yn dogfennu gofal sydd wedi'i roi ac unrhyw wybodaeth bwysig sydd angen ei rhannu. Dywedodd un unigolyn wrthym fod y staff yn sylwi ar bethau y gall fod angen sylw arnynt ac, wrth wneud hynny, maent wedi sicrhau bod yr unigolyn yn cael sylw meddygol yn gyflym.

Caiff pobl eu diogelu rhag camdriniaeth ac esgeulustod drwy brosesau recriwtio, hyfforddiant staff a pholisïau a gweithdrefnau clir. Mae systemau ar waith i sicrhau y rhoddir gwybod am bryderon, y cânt eu hadolygu ac yr eir i'r afael â nhw. Caiff y staff eu cefnogi gyda hyfforddiant a datblygiad; fodd bynnag, rhaid i'r darparwr sicrhau y cedwir hyfforddiant yn gyfredol. Mae'r staff yn adnabod y bobl yn dda ac yn ymwybodol o'u hanghenion. Mae'r cynlluniau risg yn helpu i gadw'r bobl yn ddiogel ond mae angen datblygiad pellach ar gyfer asesiadau wrth gynnal gweithdrefnau codi a chario.

## Gofal a Chymorth

Gall y bobl fod yn hyderus y gall y gwasanaeth ddiwallu eu hanghenion gan fod y darparwr yn sicrhau y caiff asesiadau a chynlluniau cymorth eu derbyn a'u trafod â'r unigolyn, a'u rhoi ar waith cyn i becyn gofal ddechrau. Mae'r rheolwr yn siarad â'r bobl yn rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn fodlon ar y gwasanaeth a ph'un a oes angen gwneud unrhyw newidiadau. Yn y gwasanaeth ailalluogi, cynhelir adolygiadau yn wythnosol gan fod pecynnau gofal am gyfnod byr o amser ac mae anghenion pobl yn newid yn gyflym. Mae gan bobl gytundebau gwasanaeth ar waith sy'n amlinellu disgwyliadau a chyfyngiadau'r gwasanaeth a ddarperir er mwyn i bobl fod yn ymwybodol o'r cymorth y gallant ddisgwyl ei gael.

Mae'r darparwr yn rhoi cymorth sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac sy'n diwallu anghenion unigol y bobl sy'n manteisio ar y gwasanaeth. Mae cynlluniau personol yn dogfennu beth y gall yr unigolyn ei wneud, y canlyniadau maent yn dymuno eu cyflawni a beth y gall staff cymorth ei roi i helpu i'w cyflawni. Mae'r darparwr yn diweddaru'r ddogfennaeth a ddefnyddir mewn byw â chymorth er mwyn ei gwneud yn fwy cyfeillgar i ddefnyddwyr ac yn hygyrch. Caiff gwybodaeth am anghenion iechyd a chyfathrebu'r bobl ei dogfennu ac mae'r bobl wedi rhannu gwybodaeth am hanes eu bywyd am ei fod yn bwysig iddynt. Mae'r bobl yn cymryd rhan wrth adolygu cynlluniau, a gynhelir yn rheolaidd ac a nodir mewn dogfen adolygu. Mae llawer o'r staff gofal yn ddwyieithog a gwelsom gofnodion o adolygiadau a chyfathrebu'n cael eu cynnal yn Gymraeg sy'n dangos bod dewisiadau iaith pobl yn cael eu parchu a'u hwyluso.

Caiff risgiau eu nodi mewn cynlluniau cymorth, ynghyd â'r camau y mae angen i'r staff eu cymryd er mwyn helpu i leihau'r risgiau i gefnogi pobl. Mae angen rhagor o wybodaeth ar asesiadau risg ychwanegol, yn enwedig o gwmpas codi a chario, am y math o offer a thasgau sy'n cael eu cyflawni i nodi risgiau posibl i'r unigolyn sy'n cael ei gefnogi a'r staff. Rhaid i'r darparwr sicrhau y caiff yr holl gyfarpar sydd ar waith ei ddogfennu yn yr asesiad risg codi a chario er mwyn adlewyrchu'r wybodaeth sy'n cael ei chyfleu gan y therapydd galwedigaethol. Mae hyn yn faes i'w wella, ac rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu.

Mae'r staff gofal yn cadw pobl yn ddiogel drwy ddilyn polisïau a gweithdrefnau a thrwy gyfathrebu'n effeithiol yn y tîm y mae'n gweithio gydag ef. Caiff hyfforddiant ar ddiogelu ei gwblhau gan staff ac mae'r polisïau'n cyfeirio at ddeddfwriaeth Cymru. Mae'r darparwr yn rhoi gwybod am bryderon diogelu i gomisiynwyr ac mae'r rheoleiddiwr yn sicrhau y caiff camau eu cymryd yn brydlon lle bo angen i ddiogelu'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth.

## Yr Amgylchedd

Mae'r darparwr yn cynnal asesiad risg sy'n cael ei adolygu'n chwarterol i sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel i'r staff ac i ddogfennu gwybodaeth hanfodol fel pwyntiau torri'r cyflenwad nwy, trydan a dŵr mewn argyfwng. Caiff rhestrau gwirio peryglon yn y cartref eu cwblhau, sy'n rhoi trosolwg byr o ble mae'r gofal yn cael ei roi er mwyn nodi unrhyw beryglon yn y gweithle i staff neu i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth. Mae'r darparwr hefyd yn cefnogi'r bobl sy'n cael cymorth gan y gwasanaethau tân ac i gynnal a chadw'r cyfarpar. Caiff cofnodion eu storio'n ddiogel yn y swyddfa a dim ond y bobl sydd ag awdurdod a all gael mynediad atynt.

Mae'r bobl sy'n byw mewn lleoliadau byw â chymorth yn cael eu cefnogi gan staff i gynnal amgylchedd eu cartref a phersonoli eu gofod, gan ddewis sut maen nhw eisiau ei addurno a'r dodrefn maen nhw'n eu hoffi. Mae'r staff yn cefnogi pobl gyda'u tenantiaethau drwy gysylltu â chomisiynwyr sy'n cysylltu â landlordiaid os bydd unrhyw faterion yn codi.

Mae'r staff gofal yn defnyddio cerbydau a ddarperir gan y sefydliad i gynnal ymweliadau. Mae'r darparwr yn cynnal y rhain er mwyn sicrhau diogelwch y staff gofal sy'n eu defnyddio.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae gan Wasanaeth Gofal Môn dîm rheoli cadarn yn ei le sy'n sicrhau y caiff y dasg o gyflwyno'r holl wasanaethau o ddydd i ddydd ei threfnu ac y caiff y tîm o staff ei gefnogi. Mae'r rheolwyr tîm, y cydlynwyr gofal a'r staff gofal yn cyfathrebu'n effeithiol yn fewnol yn ogystal â gyda gweithwyr proffesiynol allanol eraill sy'n cynnwys darparwyr eraill. Mae hyn yn golygu y caiff pobl eu trosglwyddo'n llyfn a gallant fod yn dawel eu meddwl y bydd eu hanghenion gofal yn parhau i gael eu diwallu.

Gall pobl fod yn hyderus y cânt gymorth gan staff gofal sy'n addas ar gyfer y rôl gan fod y darparwr yn sicrhau bod yr holl wiriadau cyn cyflogi yn cael eu cwblhau a bod y staff yn cael eu sefydlu'n drwyadl. Ceir ymrwymiad parhaus i recriwtio ac mae llawer o staff wedi gweithio yn y sefydliad am gyfnod hir o amser sy'n darparu parhad a sicrwydd i'r bobl sy'n derbyn cymorth. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn gweithio fel rhan o dîm cadarn, cyson gyda chyfarfodydd staff a sesiynau goruchwylio rheolaidd gyda chydlynwyr tîm. Mae'r staff yn derbyn hyfforddiant cynhwysfawr ac yn ogystal â hyfforddiant craidd, mae darpariaethau fel Tylluanod y Nos wedi creu cyswllt â Gwasanaeth Ambiwlans Cymru. Mae Tylluanod y Nos wedi'u hyfforddi i gyflwyno gwasanaeth ymateb sydd er budd pobl sy'n byw mewn cymuned wledig a all brofi rhwystrau wrth geisio cael gafael ar wasanaethau brys. Mae'r darparwr yn cefnogi'r staff gyda'u dysgu a'u datblygiad ac mae'n rhagweithiol wrth ddiwallu ceisiadau gan staff am hyfforddiant penodol. Oherwydd y pwysau a brofwyd yn ystod y pandemig a phroblemau staffio, mae cyfnod rhywfaint o'r hyfforddiant wedi dirwyn i ben. Mae hyn yn faes i'w wella, ac rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu.

Mae'r unigolyn cyfrifol yn goruchwylio pob agwedd ar y ddarpariaeth gofal yn dda yn y gwasanaeth, gan gynnal ymweliadau rheolaidd a chofnodi hyn mewn adroddiadau manwl. Mae gwybodaeth sy'n cael ei hystyried yn ystod yr ymweliadau hyn yn cynnwys adolygu a diweddaru cynlluniau gweithredu, archwilio dogfennaeth a siarad â staff a phobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth. Mae'r wybodaeth a gasglwyd yn cael ei defnyddio yn yr adroddiad ansawdd gofal ac yn helpu'r darparwr i nodi beth sy'n mynd yn dda a ble yr hoffent wella pethau. Mae'r darparwr wedi rhoi dulliau casglu gwybodaeth ar waith i sicrhau ansawdd ac mae'n llunio adroddiadau chwarterol sy'n edrych ar adborth, cwynion, pryderon, diogelu a digwyddiadau.

Mae polisïau a gweithdrefnau ar waith i gefnogi staff yn eu rôl, a gwelsom fod y darparwr wedi creu ffeil wybodaeth i'r staff gyfeirio ati sy'n cynnwys codau ymarfer gan Gofal Cymdeithasol Cymru. Mae datganiad o ddiben a chanllawiau i ddefnyddwyr gwasanaeth manwl ar gael yn ddwyieithog i roi gwybod i'r bobl am y gwasanaethau y gall Gofal Môn eu darparu a gwybodaeth am weithdrefnau cwyno. Rhaid i'r darparwr sicrhau y caiff y rhain eu diweddaru i adlewyrchu unrhyw newidiadau yn y gwasanaeth i gyflwyno'r ddarpariaeth a'r oriau darparu.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau

angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| **Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella** | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 15 | Nid yw'r asesiadau risg yn cynnwys digon o fanylion am y risgiau posibl i'r staff a'r bobl a gefnogir o'r defnydd o gyfarpar codi a chario wrth gyflawni tasgau gofal a sut bydd y risgiau hyn yn cael eu lleihau. | Newydd |
| 36 | Mae'r staff wedi derbyn hyfforddiant cychwynnol yn ystod eu cwrs sefydlu, ond mae cyfnod sawl cwrs wedi dirwyn i ben. | Newydd |

**Dyddiad Cyhoeddi** 05/04/2023